

Newidiadau i Reoliadau Cynefinoedd 2017

Yn berthnasol i Gymru a Lloegr

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r newidiadau a wnaed i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Yn y ddogfen hon, gelwir y rhain yn Rheoliadau 2017. Mae'r newidiadau wedi'u gwneud gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. Gelwir y rhain yn Rheoliadau 2019.

Mae Rheoliadau 2017 yn un o'r darnau o gyfraith ddomestig a drosodd elfennau tir a môr y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC) a rhai elfennau o'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb 2009/147/EC)[1] (a elwir y Gyfarwyddebau Natur).

Mae'r ddogfen hon:

* yn cwmpasu Cymru a Lloegr, gan gynnwys dyfroedd eu glannau hyd at 12 milltir forol.

* yn esbonio sut y mae'r diwygiadau i'r deddfwriaeth yn gweithio.

Nid yw'r ddogfen yn cwmpasu dyfroedd y môr mawr y tu hwnt i 12 milltir forol ond disgwylir i brosesau tebyg gael eu defnyddio.

Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi gwneud newidiadau tebyg i'w deddfwriaeth.

Beth sydd wedi newid

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidogion Cymru wedi gwneud newidiadau i rannau o Reoliadau 2017 fel eu bod yn gweithredu'n effeithiol.

Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau priodol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r holl brosesau neu delerau eraill yn Rheoliadau 2017 yn parhau heb eu newid ac mae'r canllawiau presennol yn dal i fod yn berthnasol.

Nid yw rhwymedigaethau awdurdod cymwys yn Rheoliadau 2017 i warchod safleoedd neu rywogaethau yn newid. Mae awdurdod cymwys yn golygu corff cyhoeddus, ymgymerydd statudol, gweinidog neu adran o'r llywodraeth, neu unrhyw un mewn swydd gyhoeddus.

Dyma'r prif newidiadau i Reoliadau 2017:

* creu rhwydwaith safleoedd cenedlaethol o fewn tiriogaeth y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys y safleoedd gwarchodedig sydd eisoes wedi'u dynodi o dan y Cyfarwydddebau Natur, ac unrhyw safleoedd pellach a ddynodir o dan y Rheoliadau hyn.

* pennu amcanion rheoli ar gyfer y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol ('amcanion y rhwydwaith')

* dyletswydd ar awdurdodau priodol i reoli a, lle bo angen, addasu'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn ei gyfanrwydd i gyflawni amcanion y rhwydwaith

* proses ddiwygiedig ar gyfer dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)

* trefniadau ar gyfer adrodd ar weithredu'r Rheoliadau, o gofio nad yw'r DU yn cyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd mwyach

* trefniadau yn lle swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â'r prawf rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig, lle mae cynllun neu brosiect yn effeithio ar gynefin neu rywogaeth â blaenoriaeth

* trefniadau o ran diwygio'r atodlenni i'r Rheoliadau a'r atodiadau i'r Cyfarwydddebau Natur sy'n berthnasol i'r DU

Mae Rheoliadau 2017 (Rheoliad 9(1)), fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau 2019, yn gofyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Cyfarwydddebau Natur. Mae'n rhaid i unrhyw bwerau newydd yn Rheoliadau 2019 gael eu harfer yn unol â'r Cyfarwydddebau a chyfraith achosion yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir hyd at 1 Ionawr 2021.

Creu rhwydwaith safleoedd cenedlaethol

Nid yw ACAau ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) yn y DU yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr UE mwyach. Mae Rheoliadau 2019 wedi creu rhwydwaith safleoedd cenedlaethol ar y tir ac ar y môr, gan gynnwys ardaloedd ar y glannau ac ar y môr yn y DU. Mae'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn cynnwys y canlynol:

* ACAau ac AGAau sy'n bodoli eisoes,

* ACAau ac AGAau newydd a ddynodir o dan y Rheoliadau hyn.

Mae unrhyw gyfeiriadau at Natura 2000 yn Rheoliadau 2017 ac yn y canllawiau yn cyfeirio at y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol newydd bellach.

Mae angen cynnal rhwydwaith cydlynol o safleoedd gwarchodedig ag amcanion cadwraeth cyffredin o hyd er mwyn:

* cyflawni'r ymrwymiad a wnaed gan y Llywodraeth i gynnal amddiffyniadau amgylcheddol,

* parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol, megis Confensiwn Bern, Confensiynau Oslo a Paris (OSPAR), a Chonfensiynau Bonn a Ramsar.

###Safleoedd Ramsar

Nid yw Gwlyptiroedd Dynodedig o Bwysigrwydd Rhyngwladol (a elwir yn safleoedd Ramsar) yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Mae llawer o safleoedd Ramsar yn gorgyffwrdd ag ACAau ac AGAau, a gallant fod wedi'u dynodi am yr un rhywogaethau a chynefinoedd neu rai gwahanol.

Mae'r holl safleoedd Ramsar yn parhau i gael eu gwarchod yn yr un ffordd ag ACAau ac AGAau.

Pennu amcanion y rhwydwaith

Mae Rheoliadau 2019 yn pennu amcanion rheoli ar gyfer y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Gelwir y rhain yn amcanion y rhwydwaith.

Bydd Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig (yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban) yn cydweithio i reoli a, lle bo angen, addasu'r rhwydwaith i gyfrannu at gyflawni amcanion y rhwydwaith.

Mae unrhyw gyfeiriadau yn Rheoliadau 2017 at fodloni 'gofynion y Cyfarwyddbau' yn cynnwys cyflawni amcanion y rhwydwaith.

Gall yr awdurdodau priodol gyhoeddi canllawiau ynghylch y gofynion hyn. Yr awdurdodau priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr a Gweinidogion Cymru yng Nghymru.

Amcanion y rhwydwaith yw:

- * cynnal neu, lle bo'n briodol, adfer cynefinoedd a rhywogaethau a restrir yn Atodiadau I a II y Gyfarwydddeb Cynefinoedd i statws cadwraethol ffafriol (SCFf)
- * cyfrannu at sicrhau, yn ardal eu dosbarthiad, fod adar gwyllt yn goroesi ac yn cenhedlu, a sicrhau cydymffurfiaeth â nodau trosfwaol y Gyfarwydddeb Adar Gwyllt.

Mae'n rhaid i'r awdurdodau priodol roi ystyriaeth i'r canlynol hefyd:

- * pwysigrwydd safleoedd gwarchoddedig
- * cydlyniant y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol
- * bygythiadau yn sgil dirywio neu ddirywio (gan gynnwys niweidio a tharfu ar nodweddion gwarchoddedig) ACAau ac AGAau.

Mae amcanion y rhwydwaith yn cyfrannu at gadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau'r DU sydd o bwys ar draws Ewrop hefyd, ac at gyflawni eu statws cadwraethol ffafriol o fewn y DU.

Addasu'r rhwydwaith

Mae'n rhaid i'r awdurdodau priodol addasu'r rhwydwaith lle bo angen, o gofio y gall helaethrwydd a dosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau o fewn y rhwydwaith esblygu dros amser. Gall fod angen iddynt ddynodi ACAau neu AGAau newydd i gyflawni amcanion y rhwydwaith. Hefyd, gall fod angen iddynt ddiwygio ACAau neu AGAau sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft:

* os yw'r nodweddion gwarchoddedig wedi newid dros amser, gan gynnwys rhywogaethau a ailgyflwynir, neu os yw poblogaeth newydd neu gynyddol o adar ar safle presennol wedi cyrraedd nifer sydd o bwys rhyngwladol.

* os oes angen symud ffin y safle mewn ymateb i stormydd neu brosesau naturiol.

* i gynnwys ardal sy'n gwneud iawn am golli ardaloedd eraill o fewn y rhwydwaith oherwydd bod cynllun neu brosiect yn symud yn ei flaen am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI).

Dad-ddosbarthu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr awdurdod priodol ddad-ddosbarthu ACA neu AGA gyfan, neu ran ohoni, er mwyn addasu'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol mewn ymateb i ddatblygiadau naturiol. Mae'r broses ar gyfer dad-ddosbarthu yr un fath â'r broses ar gyfer dynodi safle.

Bydd yr awdurdod priodol yn asesu'r canlynol:

* a yw'r safle yn parhau i fodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi

* a yw cyfraniad y safle at sicrhau cadwraeth cynefinoedd naturiol a rhywogaethau wedi'i golli'n anadferadwy.

Gall dad-ddosbarthu fod yn briodol, er enghraifft, lle mae mesurau cadwraeth sy'n seiliedig ar y wybodaeth wyddonol a thechnegol orau wedi'u rhoi ar waith ond nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus.

Ni all dad-ddosbarthu fod yn seiliedig ar fethiant i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir yn Rheoliadau 2017, fel y darperir mewn cyfraith achosion, megis achos Tre Pini¹.

Mae dad-ddosbarthu'n annhebygol o ddeillio o fethiant i fabwysiadu mesurau cadwraeth priodol i warchod, adfer neu osgoi dirywiad y safle, neu darfu ar y rhywogaeth y mae'r safle wedi'i ddynodi ar ei chyfer.

Os bydd yr awdurdod priodol yn penderfynu dad-ddosbarthu safle neu ran o safle, mae'n rhaid iddo sicrhau:

* bod cydlyniant y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn cael ei gynnal

* bod amcanion y rhwydwaith yn cael eu cyflawni mewn ffyrdd eraill, megis dynodi ACAau neu AGAau newydd.

Bydd yr awdurdod priodol hefyd yn ystyried [\[canllawiau dewis ardaloedd cadwraeth arbennig y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur \(JNCC\)\] \(https://jncc.gov.uk/our-work/special-areas-of-conservation-overview/#sac-selection\)](https://jncc.gov.uk/our-work/special-areas-of-conservation-overview/#sac-selection).

¹ C – 301/12 Cascina Tre Pini Ss y.e. Ministero dell'Ambiente e della Tutela del Territorio e del Mare ac Eraill

Sut y mae cymesuredd yn cael ei gymhwyso i amcanion rhwydwaith ACAau yn y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol

Mae awdurdod priodol ond yn gyfrifol am reoli ac addasu'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol i sicrhau statws cadwraethol ffafriol nodwedd yn gymesur â phwysigrwydd y DU o fewn gwasgariad naturiol y nodwedd.

Mae amrywiaeth o ran faint y mae camau yn y DU yn cyfrannu at sicrhau statws cadwraethol ffafriol cynefin neu rywogaeth. Bydd hyn yn dibynnu ar ba mor bwysig yw'r DU fel rhan o wasgariad naturiol cyffredinol y cynefin neu'r rhywogaeth.

Yn achos rhai mathau o gynefinoedd a rhywogaethau, mae gan y DU gyfrifoldeb arbennig, gan fod cyfran fawr ohonynt yn y DU, er enghraifft coedwigoedd derw'r Iwerydd, gorgorsydd gweithredol a morloi llwyd.

Dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

Nid oes gan y Comisiwn Ewropeaidd rôl o ran dynodi ardaloedd cadwraeth arbennig yn y DU mwyach. Mae Rheoliadau 2019 yn pennu proses ddynodi un cam, lle mai'r awdurdod priodol yw'r penderfynwr.

Mae'r broses o ddewis a dynodi ACAau yn seiliedig ar y meini prawf sydd yn Atodiad III y Gyfarwyddeb Cynefinoedd cyn belled ag y mae'n berthnasol i'r DU.

Yn achos safleoedd arfaethedig newydd, bydd yr awdurdod priodol yn gwneud y canlynol:

- * ystyried y meini prawf yng nghanm cyntaf Atodiad III y Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- * rhoi ystyriaeth i gyngor y corff cadwraeth natur priodol - Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Bydd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi asesiad i'r Gweinidogion ar sut y mae ACA arfaethedig yn bodloni'r meini prawf yn ail gam Atodiad III.

Gall ACAau newydd gael eu nodi yn amgylchedd y tir a'r môr.

Yn achos rhywogaethau dyfrol eang eu gwasgariad, dylai safle dynodedig fod yn ardal adnabyddadwy sy'n neilltuol o ran darparu'r ffactorau ffisegol a biolegol sy'n hanfodol ar gyfer byw ac atgenhedlu. Mae hyn yn cynnwys mamaliaid morol (morloi, dolffiniaid trwyn potel a llamhidyddion). Mae hyn er mwyn pwysleisio mai'r ardaloedd hynny sydd o bwysigrwydd ecolegol i'r rhywogaeth ddylai gael eu dynodir ar gyfer rhywogaethau dyfrol eang eu gwasgariad.

Mae ardaloedd craidd lle mae poblogaethau o'r rhywogaethau hyn yn ymgynnull yn rheolaidd ac yn aml ar adegau sensitif penodol yn bwysig. Er enghraifft, dylai safleoedd penodol a nodwyd lle mae rhywogaethau'n bridio, yn rhoi genedigaeth ac yn bwydo eu hepil

gael eu dewis fel ACAau, yn hytrach na'r ardal ddaearyddol gyfan lle maent wedi eu cofnodi neu eu canfod.

Bydd Natural England, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi ac yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw gynigion ynghylch unrhyw ACAau newydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i weinidogion.

Bydd ACA a gymeradwyir yn dod yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Bydd y safle'n cael ei gofnodi yn y gofrestr o safleoedd Ewropeaidd a gedwir o dan Reoliad 17. Yna rhoddir gwybod i bartïon sydd â diddordeb am y dynodiad.

Rhwymedigaethau adrodd

Mae'r awdurdodau priodol yn cadw rhwymedigaethau adrodd rheolaidd yn debyg i'r hyn sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt. Mae'n rhaid iddynt gyhoeddi'r canlynol:

* adroddiad ar weithredu bob chwe blynedd

* adroddiadau rhanddirymu bob dwy flynedd – adroddiadau ar y gweithgareddau trwyddedig sy'n eithriadau i'r deddfwriaeth

Mae hyn yn sicrhau tryloywder o ran craffu seneddol a chyhoeddus ar ein perfformiad amgylcheddol mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE a ddargedwir.

Mae Rheoliadau 2019 yn rhoi dyletswydd hefyd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi adroddiad cyfansawdd sy'n deillio o adroddiadau chwe blynedd yr holl weinyddiaethau datganoledig cyn pen dwy flynedd ar ôl eu cyhoeddi.

Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI)

Disgwylir i awdurdod cymwys ofyn i'r awdurdod priodol am ei farn ynghylch a yw cynllun neu brosiect sy'n effeithio ar gynefinoedd neu rywogaethau â blaenoriaeth yn gyfystyr ag IROPI am resymau heblaw iechyd pobl, diogelwch cyhoeddus neu fuddion amgylcheddol sylfaenol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod priodol ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac unrhyw berson arall y mae'r awdurdod priodol yn ystyried ei fod yn briodol wrth ddatblygu ei farn. Bydd yr awdurdod priodol yn rhoi ystyriaeth i'r budd cenedlaethol ehangach hefyd wrth ddatblygu ei farn IROPI.

Bydd yr awdurdod priodol yn cyhoeddi'r farn IROPI y bydd yn ei rhoi i'r awdurdod cymwys.

Diwygio atodiadau ac atodlenni

Os gwneir unrhyw gynnydd technegol a gwyddonol, gall yr awdurdod priodol ddiwygio'r atodlenni i'r Rheoliadau, a'r rhestr o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny yn yr atodiadau i Gyfarwyddebau'r UE sy'n berthnasol i'r DU.

Mae'r dulliau gwaharddedig o ddal a lladd anifeiliaid gwyllt, sydd wedi'u rhestru ym mhrif gorff y Rheoliadau, yn cael eu trosglwyddo i atodlenni newydd er mwyn caniatáu ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol.

Disgwylir y bydd newidiadau'n brin ond gallent, er enghraifft, gynnwys ychwanegu rhywogaethau newydd mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd neu eu hailgyflwyno'n llwyddiannus i Brydain Fawr.

Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn ddibynnol ar ymgynghoriad cyhoeddus a byddant yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio offerynnau statudol.

Er mwyn gwneud newidiadau i Atodiad IV y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Atodlenni 2 (rhestr o Rywogaethau Anifeiliaid a Warchodir gan Ewrop) neu 5 (rhestr o Rywogaethau Planhigion a Warchodir gan Ewrop) y Rheoliadau, bydd angen offeryn statudol cadarnhaol a bydd angen i'r Senedd neu Senedd Cymru eu trafod. Bydd hyn yn sicrhau craffu priodol ar y newidiadau a bydd yn atgynhyrchu gweithdrefnau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Fel cyrff cadwraeth natur statudol, bydd Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi cyngor technegol neu wyddonol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig.

Mae gan Weinidogion ym mhob un o genhedloedd y DU bwerau tebyg ar gyfer eu hawdurdodaeth eu hunain. Byddwn yn cydweithio ar draws y DU, lle bo hynny'n ddymunol, i sicrhau cysondeb o ran ein dull gweithredu.

[1] Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 wedi'i diwygio hefyd fel y bydd rhywogaethau adar gwyllt a geir yn y DU neu yn nhiriogaeth Ewropeaidd Aelod-wladwriaeth, neu sy'n ymweld â'r llefydd hynny'n rheolaidd, yn parhau i gael eu gwarchod.

[2] C – 301/12 Cascina Tre Pini Ss y.e. Ministero dell'Ambiente e della Tutela del Territorio e del Mare ac Eraill

Acronymau

*[ACA]: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

*[AGA]: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

*[IROPI]: Rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig

*[Defra]: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

*[CNC]: Cyfoeth Naturiol Cymru

*[SCFf]: statws cadwraethol ffafriol

*[JNCC]: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur